Comisiwn y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith
Law Commission
Reforming the law



# Asedau Digidol

## Crynodeb o’r adroddiad terfynol

# Crynodeb

## Y crynodeb hwn

Mae'r crynodeb hwn yn disgrifio'r argymhellion a'r casgliadau yn ein hadroddiad ar asedau digidol ar lefel uchel, ac mae ar gael yn https://www.lawcom.gov.uk/project/digital-assets/.

## Cyflwyniad

Mae asedau digidol yn hanfodol i gymdeithas fodern a'r economi gyfoes. Cânt eu defnyddio ar gyfer amrywiaeth gynyddol o ddibenion — gan gynnwys fel pethau gwerthfawr ynddynt eu hunain, fel dull o dalu, neu i gynrychioli pethau neu hawliau eraill neu gael eu cysylltu â hwy — a hynny'n gynyddol. Mae llofnodion electronig, cryptograffeg, cyfriflyfrau gwasgaredig, contractau clyfar a thechnoleg gysylltiedig wedi cynyddu'r ffyrdd y gellir creu asedau digidol, cael mynediad iddynt, eu defnyddio a'u trosglwyddo.

Mae disgwyl i ddatblygiadau technolegol o'r fath barhau. Wrth i dechnoleg ddatblygu ac wrth i bobl dreulio mwy a mwy o amser ar-lein, bydd ein perthynas ag asedau digidol yn dod yn bwysicach fyth.

## Asedau digidol

Mae ased digidol yn derm eithriadol o eang. Mae'n cynnwys amrywiaeth enfawr o bethau gan gynnwys ffeiliau digidol, cofnodion digidol, cyfrifon e-bost, enwau parthau, asedau digidol mewn gemau, credydau carbon digidol, tocynnau crypto a thocynnau anghyfnewidiadwy. Nid yw'r dechnoleg a ddefnyddir i greu neu amlygu'r asedau digidol hynny yr un fath ar gyfer pob un. Nid yw priodoleddau na nodweddion yr asedau digidol hynny yr un fath chwaith. Rydym yn defnyddio "asedau digidol" fel term cyffredinol, ond mae'r rhan fwyaf o'n hadroddiad a'n hargymhellion yn ymwneud ag is-set o asedau digidol sydd â nodweddion penodol.

## Hawliau eiddo personol

Mae hawliau eiddo personol yn hanfodol i systemau cymdeithasol, economaidd a chyfreithiol.

Maent yn bwysig am lawer o resymau. Mae hawliau eiddo yn ymddangos yn y dadansoddiad o'r rhan fwyaf o drafodiadau masnachol sy'n ymwneud â phethau o werth. Mae hawliau eiddo yn allweddol er mwyn rhoi disgrifiad priodol o nifer o berthnasoedd cyfreithiol modern a chymhleth, gan gynnwys trefniadau dal canolraddol, trefniadau sicrwydd cyfochrog a strwythurau sy'n ymwneud ag ymddiriedolaethau. Mae hawliau eiddo hefyd yn bwysig mewn achosion o fethdaliad neu ansolfedd, pan fydd rhywun yn ymyrryd â gwrthrychau hawliau eiddo neu'n eu cymryd yn anghyfreithlon, ac ar gyfer y rheolau cyfreithiol sy'n ymwneud ag olyniaeth ar ôl marwolaeth. Mae hawliau eiddo yn arbennig o werthfawr oherwydd eu bod, mewn egwyddor, yn dda yn erbyn y byd i gyd, tra bo hawliau eraill — personol — ddim ond yn dda yn erbyn rhywun sydd wedi ysgwyddo dyletswydd gyfreithiol berthnasol.

## Asedau digidol a hawliau eiddo personol

Dros y 15 mlynedd diwethaf, mae cyfraith Cymru a Lloegr wedi profi ei bod yn ddigon gwydn a hyblyg i gydnabod rhai asedau digidol fel pethau y gall hawliau eiddo personol fod yn berthnasol iddynt. Nid yw hynny'n syndod, oherwydd mae trin rhai asedau digidol (gan gynnwys tocynnau crypto) fel pethau y gall hawliau eiddo personol ymwneud â nhw yn ffordd ymarferol ac effeithiol o gysoni'r gyfraith â disgwyliadau'r partïon sy'n rhyngweithio â nhw.

Rydym yn dod i'r casgliad bod y gyfraith yn y cyswllt hwn bellach yn gymharol sicr a bod y meysydd o ansicrwydd cyfreithiol sy'n parhau yn fanwl ac yn gymhleth iawn. Mae'r cymhlethdod hwnnw'n parhau, yn rhannol, oherwydd mae'r farchnad asedau digidol a'r dechnoleg dan sylw yn esblygu a bydd yn parhau i wneud hynny. Rydym yn nodi'r meysydd o ansicrwydd gweddilliol sy'n weddill ac yn argymell diwygio'r gyfraith i leihau'r ansicrwydd hwnnw, ond mewn ffordd sy'n cydnabod nodweddion penodol gwahanol asedau digidol. Nod y diwygiadau i'r gyfraith rydym yn eu hargymell yw sicrhau bod y system gyfreithiol, fel rhan o fframwaith cymdeithasol ehangach, yn gallu atgyfnerthu cryfder cyffredinol ecosystemau asedau digidol (sydd hefyd yn dibynnu ar elfennau cymdeithasol). Mae ein hargymhellion hefyd yn ceisio sicrhau bod cyfraith breifat Cymru a Lloegr yn parhau i fod yn adnodd deinamig, cystadleuol yn fyd-eang a hyblyg ar gyfer cyfranogwyr y farchnad asedau digidol.

## Ar gyfer pa asedau digidol y gall hawliau eiddo personol fod yn berthnasol iddynt

Defnyddir asedau digidol at nifer o ddibenion, gan gynnwys:

1. talu am nwyddau a gwasanaethau;
2. trosglwyddo neu gyfleu gwerth drwy ddulliau electronig (yn aml ar sail drawsffiniol);
3. ehangu cwmpas a mynediad at farchnadoedd a chynyddu hylifedd pethau eraill a'r gallu i'w trosglwyddo a'u llunio;
4. cofnodi pethau eraill a chofnodi tarddiad; a
5. hapfuddsoddi a buddsoddi.

Mae marchnadoedd cymhleth, rhyngwladol (er eu bod yn dal yn gymharol fach) wedi esblygu ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau sy'n ymwneud ag asedau digidol, a thocynnau crypto yn benodol. Gellir defnyddio tocyn crypto mewn sawl ffordd:

1. fel peth o ddiddordeb neu werth ynddo'i hun;
2. fel rhan o gofrestr neu gofnod o fuddiannau yn hytrach na chofnod cronfa ddata confensiynol (er bod cofrestr neu gofnod yn cynnwys "pethau", yn debyg i'r gleiniau ar abacws); neu
3. er mwyn cysylltu neu ymgorffori hawliau fel y gall deiliad y tocyn crypto hawlio perfformiad y rhwymedigaethau a gofnodwyd gan y tocyn crypto.

## Tocyneiddio sicrwydd

Un achos defnydd amlwg ar gyfer tocynnau crypto yw tocyneiddio pethau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys sicrwydd. Gall defnyddio tocynnau crypto i gofnodi, i gysylltu neu i ymgorffori dyled a sicrwydd ecwiti fod yn ddeniadol iawn i gyfranogwyr yn y farchnad, oherwydd mae'n caniatáu ar gyfer sicrwydd hawdd ei drosglwyddo, heb fod yn ganolradd, sydd ar gael i fuddsoddwyr sefydliadol a manwerthu.

Er bod lefel uchel o sicrwydd cyfreithiol ar gyfer marchnadoedd sicrwydd presennol, gallai marchnadoedd sicrwydd ar ffurf tocynnau (neu rannau penodol ohonynt) weithredu'n wahanol neu efallai bod angen iddynt esblygu i gydnabod nodweddion gwahanol asedau digidol a thocynnau crypto. Credwn y bydd llawer o'n hargymhellion a'n casgliadau — ynghyd â gwaith cyrff fel Tasglu Awdurdodaeth y DU — yn berthnasol i farchnadoedd sicrwydd ar ffurf tocynnau, ac y byddant yn helpu i ddarparu sicrwydd cyfreithiol yn y maes cyllid cynyddol hwn.

### Defnyddio tocynnau crypto




Yn cael ei drin fel peth o werth ynddo'i hun

Yn cael ei ddefnyddio fel rhan o gofnod neu gofrestr

Yn cael ei ddefnyddio i gysylltu â hawliau anniriaethol, neu i'w hymgorffori

# Ein dull gweithredu teirochrog ar gyfer diwygio'r gyfraith yn ein hadroddiad

Yn ein hadroddiad, ychydig iawn o argymhellion a wnawn ar gyfer diwygio'r gyfraith. Mae dau reswm dros hynny. Yn gyntaf, oherwydd ein bod yn dod i'r casgliad bod cyfraith gwlad Cymru a Lloegr, ar y cyfan, yn ddigon hyblyg, ac eisoes yn gallu darparu ar gyfer asedau digidol. Yn ail, oherwydd ein bod am i'n hargymhellion fod mor uniongyrchol ac mor rhwydd i'w rhoi ar waith â phosibl. Felly, mae gennym agwedd deirochrog tuag at ddiwygio'r gyfraith.

## Blaenoriaethu datblygu cyfraith gwlad

Yn gyntaf, rydym yn hyrwyddo cyfraith gwlad Cymru a Lloegr ac yn tynnu sylw cyfranogwyr y farchnad at ei llwyddiannau yn y marchnadoedd asedau digidol a thocynnau crypto. Bwriad ein dadansoddiad yw bod yn sylfaen ar gyfer datblygu rhagor ar y gyfraith gwlad. Rydym yn dod i'r casgliad bod y gyfraith yn y maes hwn bellach yn gymharol sicr a bod unrhyw feysydd o ansicrwydd cyfreithiol gweddilliol yn fanwl ac yn gymhleth iawn. Rydym yn trafod y meysydd ansicr gweddilliol hyn sy'n weddill ac yn dod i gasgliadau ynghylch y ffordd fwyaf priodol i gyfraith gwlad ddatblygu mewn perthynas â hwy.

## Targedu'r gwaith o ddiwygio'r gyfraith statudol

Yn ail, rydym yn gwneud dau argymhelliad ar gyfer diwygio'r gyfraith statudol. Rydym yn dod i'r casgliad, er nad yw'n hawdd gosod rhai asedau digidol o fewn categorïau traddodiadol o bethau y gall hawliau eiddo personol ymwneud â nhw, nid yw hyn yn eu hatal rhag gallu denu hawliau eiddo personol, ac mae'n amlwg mai dyma'r sefyllfa mewn cyfraith gwlad. Serch hynny, dywedodd rhai ymgyngoreion wrthym, gan gynnwys uwch aelodau ac aelodau arbenigol o'r farnwriaeth, y byddai'n ddefnyddiol mynegi'r sefyllfa hon mewn deddfwriaeth. Rydym yn argymell deddfwriaeth o'r fath ac yn dod i'r casgliad y bydd yn cadarnhau ac yn cefnogi'r sefyllfa bresennol o ran cyfraith gwlad.

Ar ben hynny, rydym yn dod i'r casgliad bod un maes lle na all cyfraith gwlad roi digon o sicrwydd cyfreithiol i gyfranogwyr y farchnad: datblygu trefn newydd ar gyfer trefniadau sicrwydd cyfochrog sy'n ymwneud ag asedau digidol (yn benodol, tocynnau crypto ac asedau crypto). Rydym yn cydnabod nad yw'r mater hwn yn ymwneud â chwestiynau cyfreithiol yn unig; mae hefyd yn ymwneud â dyfarniadau sy'n seiliedig ar bolisi y tu hwnt i gwmpas ein hadroddiad. Rydym yn argymell bod y Llywodraeth, fel mater o flaenoriaeth, yn sefydlu prosiect amlddisgyblaethol i lunio a rhoi fframwaith cyfreithiol statudol pwrpasol ar waith sy'n hwyluso'n well ac yn fwy clir y broses o ymrwymo, gweithredu a gorfodi trefniadau sicrwydd cyfochrog ar gyfer tocynnau crypto (penodol) ac asedau crypto (penodol).

## Cefnogaeth gan arbenigwyr technegol sy'n benodol i'r diwydiant

Yn drydydd, rydym yn cydnabod bod technoleg fwyfwy uwch yn debygol o arwain at doreth o asedau digidol dros amser, o ran nifer, achos defnydd, dyluniad a swyddogaethau technolegol. Mae llawer o'r asedau digidol hynny'n debygol o fod yn gymhleth, yn gallu cael eu llunio (hynny yw, wedi'u hadeiladu o gydrannau gwahanol y gellir eu cyfnewid ac sydd mor hydrin yn eu swyddogaethau dros amser) ac yn amlochrog, ac yn debygol o ddefnyddio technoleg wahanol. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at gynnyrch a gwasanaethau amrywiol y bydd yn rhaid i'r gyfraith ddarparu ar eu cyfer. Rydym yn dod i'r casgliad bod datblygu cyfraith gwlad yn ffordd well o allu ymdopi â'r newid hwn na diwygio cyfraith statudol.

Fodd bynnag, mae'n dasg enfawr i'r farnwriaeth fod yn agored i ddatblygiad technolegol o'r fath. Felly, rydym yn argymell bod y Llywodraeth yn creu neu'n enwebu panel o arbenigwyr technegol sy'n benodol i'r diwydiant,[1] ymarferwyr cyfreithiol, academyddion a barnwyr i roi arweiniad nad yw'n rhwymo ar y materion cyfreithiol a ffeithiol cymhleth sy'n esblygu sy'n ymwneud â rheoli asedau digidol penodol (a materion eraill sy'n ymwneud â marchnadoedd a systemau asedau digidol yn fwy cyffredinol). Rydym yn dod i'r casgliad y bydd canllawiau manwl o'r fath sy'n benodol i dechnoleg yn hwyluso cymhwyso rheolau cyfreithiol a rhesymu mewn ffordd resymegol a chyson dros amser.

## Ein dull gweithredu teirochrog




**Datblygu cyfraith gwlad**

Rydym yn dod i'r casgliad bod cyfraith gwlad Cymru a Lloegr, ar y cyfan, yn ddigon hyblyg, ac eisoes yn gallu darparu ar gyfer asedau digidol ac felly y dylai unrhyw ddiwygiad i'r gyfraith fod drwy ddatblygu rhagor ar gyfraith gwlad lle bo hynny'n bosibl.

**Targedu'r gwaith o ddiwygio'r gyfraith statudol**

Rydym yn argymell targedu'r gwaith o ddiwygio'r gyfraith statudol dim ond i gadarnhau a chefnogi'r sefyllfa bresennol o ran cyfraith gwlad, neu lle nad yw datblygu cyfraith gwlad yn ymarferol bosibl.

**Canllawiau'r diwydiant**

Rydym yn argymell gwneud trefniadau ar gyfer darparu rhagor o arweiniad gan arbenigwyr yn y diwydiant a fyddai'n cefnogi cyfraith gwlad a'r statud.

[1] Byddai angen i hyn gynnwys y rheini sy'n arbenigo yn y marchnadoedd tocynnau crypto, ac nid dim ond y rheini sy'n arbenigo mewn marchnadoedd cyllid traddodiadol neu farchnadoedd sicrwydd canolraddol.

# Crynodeb o’n hargymhellion a’n casgliadau

## “Trydydd” categori o beth y gall hawliau eiddo personol fod yn berthnasol iddo

Rydym yn dod i’r casgliad nad yw rhai asedau digidol yn bethau mewn meddiant nac yn bethau ar waith, ond serch hynny mae cyfraith Cymru a Lloegr yn eu trin fel pethau sy’n gallu bod yn bethau y gall hawliau eiddo personol ymwneud â nhw.

### Y tri chategori o bethau y gall hawliau eiddo personol fod yn berthnasol iddynt



**Peth mewn meddiant**
Er enghraifft, car



**Peth ar waith**
Er enghraifft, dyled




**Peth trydydd categori**
Er enghraifft,
tocyn crypto

## Deddfwriaeth i gadarnhau a chefnogi'r sefyllfa bresennol o ran cyfraith gwlad

Dywedodd rhai ymgyngoreion, gan gynnwys uwch farnwyr a barnwyr arbenigol, y byddai'n ddefnyddiol mynegi'r sefyllfa hon mewn deddfwriaeth. Dywedasant y byddai hyn yn cadarnhau sefyllfa bresennol cyfraith gwlad, yn hwyluso'r gyfraith i ddatblygu'n barhaus ar y pwynt a rhoi terfyn ar unrhyw awdurdod parhaol sy'n awgrymu nad oes modd cael "trydydd" categori o'r fath. Rydym yn argymell deddfwriaeth o'r fath ac yn dod i'r casgliad y bydd yn cadarnhau ac yn cefnogi'r sefyllfa bresennol o ran cyfraith gwlad.

## Osgoi diffinio ffiniau caled trydydd categori o bethau

Rydym yn argymell cadarnhau'n statudol na fydd peth yn cael ei amddifadu o statws cyfreithiol fel gwrthrych hawliau eiddo personol dim ond oherwydd nad yw'n beth ar waith nac yn beth mewn meddiant. Fodd bynnag, rydym yn dod i'r casgliad nad yw'n angenrheidiol nac yn briodol diffinio mewn statud ffiniau caled trydydd categori o beth o'r fath. Rydym yn dod i'r casgliad mai cyfraith gwlad yw'r ffordd orau o benderfynu ar y pethau hynny sy'n gallu bod (ac a ddylai fod) yn briodol, yn wrthrychau hawliau eiddo personol, ac sy'n dod o fewn y trydydd categori: pethau trydydd categori. Efallai na fydd y rhain bob amser yn bethau digidol a gallent gynnwys pethau fel cwotâu llaeth neu lwfansau allyriadau carbon penodol. Rydym yn galw pethau digidol sy'n dod o dan y trydydd categori yn "wrthrychau digidol".

## Ein hargymhelliad a'n casgliadau ar gyfer trydydd categori yn ymarferol

Rydym yn ystyried yn fanwl bryderon ymgyngoreion ynghylch diffinio ffiniau caled ar gyfer trydydd categori o beth y gall hawliau eiddo personol fod yn berthnasol iddo. Gan fod ein hargymhelliad sy'n ymwneud â'r trydydd categori yn golygu cadarnhau ac ailddatgan y sefyllfa bresennol o ran cyfraith gwlad, sef bod trydydd categori o'r fath yn bodoli, nid ydym o'r farn y bydd yn achosi unrhyw ansicrwydd cyfreithiol ychwanegol.

## Cymhwyso ar gyfer tocynnau crypto, systemau cadwyn bloc preifat, gyda hawliau, credydau carbon gwirfoddol, asedau digidol mewn gemau a ffeiliau digidol

Rydym yn dangos sut gallai ein hargymhellion a'n casgliadau weithio drwy gyfeirio at amrywiaeth o asedau digidol, gan gynnwys tocynnau crypto, systemau cadwyn bloc preifat, gyda hawliau, credydau carbon gwirfoddol, asedau digidol mewn gemau a ffeiliau digidol.

Rydym yn dod i'r casgliad y bydd materion ffiniau sy'n bodoli eisoes yn parhau ac na ellir datrys y materion ffiniau hynny (ac yn wir, byddent yn debygol o gael eu gwaethygu) drwy ddiwygio'r gyfraith statudol. Rydym yn dod i'r casgliad mai cyfraith gwlad yw'r adnodd mwyaf priodol ar gyfer delio â materion ffiniau anodd sy'n ymwneud ag asedau digidol sy'n seiliedig ar dechnolegau gwahanol iawn ac ar gyfer penderfynu a all (ac a ddylai) asedau digidol o'r fath ddenu hawliau eiddo personol ar sail setiau penodol o ffeithiau.

## Ein syniadau ar gyfer pethau trydydd categori

Rydym yn trafod ymatebion ymgyngoreion i'r meini prawf dros dro roeddem wedi'u cynnig yn ein papur ymgynghori ar gyfer y trydydd categori. Rydym yn gwneud addasiadau ac yn cynnwys esboniadau i'r meini prawf hynny o ganlyniad ac rydym bellach yn eu trin fel syniadau. Mae ein syniadau (fel y maent wedi'u haddasu yn yr adroddiad hwn) yn disgrifio'n gywir fath penodol o ased digidol "craidd" – sef tocynnau crypto a amlygir gan systemau gwasgaredig, cyhoeddus, heb hawliau – sef pethau y gall hawliau eiddo personol fod yn berthnasol iddynt yn ôl y gyfraith ac nad ydynt yn bethau mewn meddiant nac yn bethau ar waith.

Yn ein papur ymgynghori roeddem yn cynnig dros dro y dylai peth allu disgyn o fewn ein trydydd categori arfaethedig o beth y gall hawliau eiddo personol ymwneud ag ef, os yw'r canlynol yn berthnasol:

1. mae'n cynnwys data a gynrychiolir mewn cyfrwng electronig, gan gynnwys ar ffurf cod cyfrifiadur, signalau electronig, digidol neu analog;
2. mae'n bodoli'n annibynnol ar bobl ac yn bodoli'n annibynnol ar y system gyfreithiol; ac
3. mae'n gystadleuol.[2]

## Yn cynnwys data

Ar sail ymatebion ymgyngoreion, rydym yn dod i'r casgliad nad oes angen i "yn cynnwys data" fod yn faen prawf ynddo'i hun, oherwydd mae'r maen prawf (1) yn canolbwyntio'n ormodol ar gysyniadoli'r peth dan sylw ar ddata; a (2) o bosibl yn creu ffin galed ddiangen ar gyfer y trydydd categori.

## Bodoli'n annibynnol ar bobl ac yn annibynnol ar y system gyfreithiol

Rydym yn egluro cymhwysiad a dehongliad ein hail faen prawf – bod yn rhaid i beth fodoli'n annibynnol ar bobl a bodoli'n annibynnol ar y system gyfreithiol – ac yn ymateb i rai pryderon a godwyd gan ymgyngoreion ynghylch y maen prawf hwn.

## Cystadleuol

Rydym yn ailadrodd ac yn cadarnhau ein dadansoddiad o'r maen prawf bod yn rhaid i beth fod yn gystadleuol. Yn benodol, rydym yn egluro bod p'un a yw rhywbeth yn gystadleuol yn ddeuaidd ac rydym yn gwahaniaethu ein maen prawf bod yn rhaid i rywbeth fod yn gystadleuol o gysyniadau rheolaeth ddethol ac eithriadwyedd.

Rydym yn dod i'r casgliad bod ein syniadau — yn benodol, y cysyniad bod yn rhaid i beth fod yn "gystadleuol" fel y'i cymeradwywyd gan y Llys Apêl yn *Tulip Trading*)[3] — yn gwahaniaethu'n ddefnyddiol rhwng y math hwn o ased digidol a phethau digidol eraill fel ffeiliau digidol nad ydynt (fel maent wedi'u cynllunio ar hyn o bryd) yn gallu denu hawliau eiddo personol fel mater cyfreithiol.



[2] Mae peth yn gystadleuol os yw defnydd o'r peth gan un person (neu gan grŵp penodol o bobl) o reidrwydd yn amharu ar allu rhywun arall neu rywrai eraill i ddefnyddio'r peth hwnnw.

[3] *Tulip v Van der Laan* [2023] EWCA Civ 83, [2023] 4 WLR 16 yn [24], gan Birss LJ.

## Rheolaeth

Rydym yn disgrifio (ond nid ydym yn diffinio'n fwriadol) y cysyniad ffeithiol sydd orau am gyfleu'r gallu i (1) eithrio neu ganiatáu mynediad at beth trydydd categori; a (2) rhoi'r peth trydydd categori ar waith fel y mae'n gallu cael ei ddefnyddio. Rydym yn galw'r cysyniad ffeithiol hwn yn "reolaeth". Rydym yn trafod arwyddocâd cyfreithiol y cysyniad o reolaeth dros bethau trydydd categori. Rydym yn dod i'r casgliad bod y cysyniad ffeithiol o reolaeth a chanlyniadau cyfreithiol rheolaeth yn gweithio'n wahanol ar gyfer gwrthrychau digidol, ac mae'n gymhleth iawn mewn perthynas â nhw.

### Rheolaeth ffeithiol

Yn gyntaf, rydym yn dod i'r casgliad y bydd cyfreitheg cyfraith gwlad yn cael ei gwella a'i gwneud yn haws i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y farchnad ei deall drwy ganolbwyntio ar ddisgrifiadau gwell ac enghreifftiau go iawn o reolaeth ffeithiol. Mae rheolaeth ffeithiol yn y cyd-destun hwn yn gysyniad sy'n benodol iawn i dechnoleg, a bennir i raddau helaeth gan y ffordd y mae'r dechnoleg benodol dan sylw yn hwyluso gosod neu greu graddau amrywiol o lyffetheiriau technegol mewn perthynas â'r gwrthrych digidol dan sylw.



### Rheolaeth gyfreithiol

Yn ail, rydym yn nodi bod canlyniadau cyfreithiol rheolaeth o reidrwydd yn gymhleth ac yn amrywiol. Nid ydym yn credu bod y cysyniad o reolaeth yn unig yn ddigon manwl, caboledig neu sensitif i fanylion y farchnad yn ddigonol ac yn bendant i bennu canlyniadau trefniadau cyfreithiol cymhleth. Yn hytrach, rydym yn ystyried rheolaeth fel rhan gyfansawdd o egwyddorion a mecanweithiau cyfreithiol mwy cymhleth (fel trosglwyddiadau cyfreithiol, trefniadau dal canolraddol, trefniadau sicrwydd cyfochrog a chamau gweithredu a rhwymedïau mewn perthynas â gwrthrychau digidol). Mae nifer enfawr o asedau digidol technegol unigryw hefyd, ac mae rhai ohonynt yn gweithredu'n debycach i "offerynnau cludwyr digidol" a rhai nad ydynt. Mae rheolaeth yn gweithio'n wahanol ar gyfer gwahanol asedau digidol, yn rhinwedd nodweddion a swyddogaethau cynhenid y dechnoleg ei hun. Felly, bydd defnyddio rheolaeth a'i chanlyniadau cyfreithiol yn wahanol ar gyfer gwahanol asedau digidol. Yn benodol, mae rheolaeth yn gweithio'n wahanol ar gyfer pethau mewn meddiant, pethau ar waith a phethau trydydd categori (ac, o bosibl, rhwng gwahanol bethau trydydd categori). Rydym yn dod i'r casgliad y dylai'r gyfraith gydnabod a derbyn y realiti hwn.

### Grŵp arbenigwyr technegol

Felly, rydym yn argymell bod y Llywodraeth yn creu neu'n enwebu panel o arbenigwyr technegol sy'n benodol i'r diwydiant, ymarferwyr cyfreithiol, academyddion a barnwyr i roi arweiniad nad yw'n rhwymo ar y materion cyfreithiol a ffeithiol cymhleth sy'n esblygu sy'n ymwneud â rheoli asedau digidol penodol (a materion eraill sy'n ymwneud â marchnadoedd a systemau asedau digidol yn fwy cyffredinol).

## Trosglwyddiadau

Rydym yn ystyried sut mae trosglwyddo tocynnau crypto yn gyfreithiol yn gweithredu ar sail, ymysg pethau eraill, sut mae tocyn crypto yn trosglwyddo fel mater o ffaith, a safbwyntiau gwahanol yr ymgyngoreion ar y mater hwn.

### Difodiant/creu yn erbyn peth parhaus

Rydym yn trafod ein sylw yn ein papur ymgynghori bod "gweithred drosglwyddo o fewn system tocynnau crypto fel arfer yn golygu amnewid, addasu, dinistrio, canslo neu ddiddymu tocyn crypto cyn trosglwyddo a'r broses ganlyniadol a chyfatebol i hynny o greu tocyn crypto newydd, wedi'i addasu neu sy'n gysylltiedig yn ddamweiniol." Rydym yn trafod dwy farn groes a gyflwynwyd gan ymgyngoreion ynghylch nodweddion cyfreithiol gweithred drosglwyddo o'r fath sy'n achosi newid cyflwr.

Yn gyntaf, bod trosglwyddiad o'r fath yn diddymu gwrthrych cyn trosglwyddo hawliau eiddo personol ac yn creu gwrthrych "newydd" ar ôl trosglwyddo gwrthrych hawliau eiddo personol ("dadansoddiad difodiant/creu"). Yn ail, bod trosglwyddiad o'r fath yn golygu parhad gwrthrych(au) hawliau eiddo personol drwy'r trosglwyddiad ("dadansoddi'r peth parhaus").

### Trosglwyddo drwy newid rheolaeth

Rydym yn dod i'r casgliad ei bod yn bosibl trosglwyddo tocyn crypto oddi ar y gadwyn yn gyfreithlon, drwy "newid rheolaeth" (ynghyd â'r bwriad angenrheidiol). Gallai enghraifft gynnwys trosglwyddo rheolaeth yn ffisegol drwy drosglwyddo caledwedd, neu drosglwyddo ar system Haen 2.



## Amddiffyniad cyfraith gwlad arbennig i brynwr dilys am werth heb hysbysiad sy'n gymwys i docynnau crypto

Rydym yn cydnabod bod y rhan fwyaf o'r ymgyngoreion wedi cyflwyno dadleuon cryf o blaid cydnabod a datblygu amddiffyniad cyfraith gwlad arbennig i brynwr dilys am werth heb hysbysiad sy'n gymwys i docynnau crypto (a phethau trydydd categori yn fwy cyffredinol). Rydym yn cytuno â'r dadleuon a gyflwynwyd gan ymgyngoreion.

Ar yr un pryd, rydym yn cydnabod nad yw ein hargymhelliad ar gyfer deddfwriaeth gadarnhau, wedi'i thargedu ynghyd â datblygu cyfraith gwlad ar gyfer paramedrau trydydd categori o beth y gall hawliau eiddo personol ymwneud ag ef yn cynnwys diffiniad statudol o bethau trydydd categori o'r fath (neu ryw is-set ohonynt). Rydym yn cydnabod bod hyn yn ei dro yn atal "rheol caffael diniwed" statudol cyffredinol mewn perthynas ag amcanion hawliau eiddo personol o'r fath, oherwydd byddai bron yn sicr y byddai angen i reol caffael diniwed statudol ddiffinio'r gwrthrychau hawliau eiddo personol dan sylw a oedd yn elwa o'r rheol. Rydym yn dod i'r casgliad y gall amddiffyniad arbennig ar gyfer prynwr dilys am werth heb hysbysiad sy'n gymwys i docynnau crypto gael ei gydnabod a'i ddatblygu drwy'r llysoedd drwy ddatblygu'r gyfraith gwlad yn raddol. Rydym yn dod i'r casgliad y gellir ymestyn y rhesymeg hon i bethau trydydd categori arall hefyd.

## Trefniadau dal canolraddol

Rydym yn ystyried sut gellir strwythuro trefniadau dal canolraddol mewn perthynas â thocynnau crypto o dan gyfraith Cymru a Lloegr. Rydym yn ystyried tocynnau crypto fel enghraifft o ystyried pwysigrwydd trefniadau dal canolradd i farchnadoedd tocynnau crypto.

### Egluro'r derminoleg

Rydym yn trafod ymatebion ymgyngoreion i'r derminoleg a ddefnyddiwyd gennym yn ein papur ymgynghori i ddisgrifio trefniadau dal canolradd penodol tocynnau crypto, yn enwedig y term "cadwraeth". Yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym nawr yn gwahaniaethu rhwng "trefniadau dal canolraddol ar gyfer cadw", "trefniadau dal canolradd heb gadw" a "trefniadau di-ddal" yn seiliedig ar ganlyniadau cyfreithiol trefniadau o'r fath. Yn benodol, rydym yn tynnu sylw at y risgiau y gallai defnyddwyr trefniadau dal canolraddol fod yn agored iddynt ar ddechrau achos ansolfedd cyfryngwr sy'n dal.

### Trefniadau dal canolraddol sy'n seiliedig ar gontractau ac ymddiriedolaeth

Rydym yn ystyried cymhwyso cyfraith contractau ac ymddiriedolaeth i drefniadau dal canolraddol ar gyfer tocynnau crypto. Rydym yn dod i'r casgliad y gall ymddiriedolaethau gefnogi ystod eang o drefniadau dal canolraddol ar gyfer cadw, gan gynnwys lle mae'r hawliadau tocynnau crypto sylfaenol yn cael eu cadw ar sail gyfunol, heb eu dyrannu, er budd nifer o ddefnyddwyr. Rydym yn cadarnhau'r dull cysyniadol rydym yn ei ffafrio ar gyfer sefydlu trefniant ymddiriedolaeth o'r fath o dan gyfraith Cymru a Lloegr.

Rydym yn dod i'r casgliad nad yw rhagdybiaeth o ymddiriedolaeth ar gyfer trefniadau dal canolraddol sy'n cynnwys tocynnau crypto yn angenrheidiol nac yn briodol.

## Adran 53(1)(c) o Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925

Rydym yn ystyried effaith bosibl materion ffurfiol statudol ar weithredu trefniadau canolraddol tocynnau crypto sy'n seiliedig ar ymddiriedolaeth. Rydym yn dod i'r casgliad bod y gyfraith gwlad bresennol yn ddigon sicr yn y maes hwn ac nad yw diwygio'r gyfraith statudol mewn perthynas ag adran 53(1)(c) o Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925, sy'n nodi bod yn rhaid i waredu buddiannau ecwitïol fod yn ysgrifenedig a bod yn rhaid eu llofnodi, yn angenrheidiol ar hyn o bryd. Rydym yn gadael y posibilrwydd y gallai fod yn angenrheidiol neu fod modd cyfiawnhau hynny yn y dyfodol wrth i'r farchnad esblygu.

## Rheol dyrannu colledion

Rydym yn ystyried, ond nid ydym yn argymell ar hyn o bryd, rheol gyffredinol *pro rata* o ran dyrannu colledion daliadau tocynnau crypto wedi'u cydgymysgu ac heb eu dyrannu neu hawliadau tocynnau crypto sy'n cael eu dal ar ymddiriedaeth gan gyfryngwr dal ar gyfer cadw sy'n mynd i mewn i achosion ansolfedd.

Rydym yn dod i'r casgliad bod angen asesiad ehangach a manylach o rinweddau diwygiadau posibl i'r gyfraith ansolfedd sy'n berthnasol i gyfryngwyr dal ar gyfer cadw penodol.

## Strwythurau cyfreithiol amgen ac atodol ar gyfer trefniadau dal canolraddol ar gyfer cadw

Rydym yn trafod y posibilrwydd y bydd cyfraith gwlad yn datblygu strwythurau cyfreithiol amgen ac atodol ar gyfer trefniadau dal canolraddol ar gyfer cadw nad ydynt yn dibynnu ar ymddiriedolaethau. Rydym yn dod i'r casgliad y gallai hyn fod ar ffurf cyfryngwyr sy'n dal yn cael eu cydnabod fel rhai sy'n caffael buddiant perchnogol sy'n seiliedig ar reolaeth mewn hawliadau tocynnau crypto a ddelir sy'n destun teitl uwch a gedwir gan ddefnyddwyr. Rydym hefyd yn trafod defnyddio egwyddorion cyfraith breifat eraill gan gynnwys dyletswyddau asiantaethol ac ymddiriedol.



## Trefniadau sicrwydd cyfochrog

Rydym yn ystyried sut gellir strwythuro trefniadau sicrwydd cyfochrog mewn perthynas â thocynnau crypto ac asedau crypto o dan gyfraith Cymru a Lloegr. Unwaith eto, rydym yn ystyried tocynnau crypto ac asedau crypto yn benodol oherwydd eu hamlygrwydd yn y marchnadoedd asedau digidol.

### Sicrwydd cyfochrog

Mewn cytundeb benthyciad ansicredig, mae'r rhoddwr benthyciadau yn rhoi benthyg arian a dim ond addo ad-dalu mae'r sawl sy'n cael benthyg.



Mewn cytundeb diogelu, neu gytundeb sicrwydd cyfochrog, mae'r rhoddwr benthyciadau (neu, yn fwy cyffredinol, y derbyniwr sicrwydd cyfochrog) yn caffael buddiant perchnogol yn asedau'r sawl sy'n cael benthyg (darparwr sicrwydd cyfochrog) i dalu am berfformiad y benthyciwr. Mae hyn yn rhoi mwy o warchodaeth os bydd diffygdalu.




Fel arfer, bydd sefydliadau ariannol yn diogelu eu trefniadau (er enghraifft, benthyciad), yn aml gan ddefnyddio sicrwydd i wneud hynny. Gallai sefydliadau o'r fath ymrwymo i drefniant ariannol sicrwydd cyfochrog, gan wneud y broses o ddiogelu rhwymedigaethau a gwireddu sicrwydd yn fwy effeithlon.



### Trosglwyddo teitlau, sicrwydd anfeddiannol a sicrwydd meddiannol

Rydym yn trafod sut gellir defnyddio trefniadau trosglwyddo teitlau a threfniadau sy'n seiliedig ar sicrwydd anfeddiannol i strwythuro trefniadau sicrwydd cyfochrog tocynnau crypto ac asedau crypto heb fod angen diwygio'r gyfraith. Rydym hefyd yn egluro nad yw trefniadau sy'n seiliedig ar sicrwydd meddiannol yn berthnasol i docynnau crypto ac asedau crypto.

### Buddiant sicrhad sy'n seiliedig ar reolaeth mewn perthynas â thocynnau crypto

Rydym yn trafod sut gallai cydnabod buddiant perchnogol sy'n seiliedig ar reolaeth i hwyluso'r broses o ddal a dyfarnu sicrwydd dros docynnau crypto ac asedau crypto fod yn ddatblygiad buddiol o fewn cyfraith gwlad. Rydym yn dod i'r casgliad y gallai cyfraith gwlad ddatblygu i gydnabod buddiant sicrhad sy'n seiliedig ar reolaeth mewn perthynas â thocynnau crypto ac asedau crypto (o bosibl drwy gyfateb i wystl). Ond mae'n debyg na fyddai datblygu buddiant sicrhad o'r fath yn ateb cyflawn o ystyried y byddai buddiant sicrhad o'r fath yn debygol o ddibynnu ar syniadau rheoli statig a chynhwysfawr.

### Cymhwyso ac egluro Rheoliadau Trefniadau Sicrwydd Cyfochrog Ariannol (Rhif 2) 2003

Rydym yn ystyried pa mor addas yw Rheoliadau Trefniadau Sicrwydd Cyfochrog Ariannol (Rhif 2) 2003 ("FCARs") i docynnau crypto, eitemau cyfochrog eraill a allai ddefnyddio a/neu fod yn gysylltiedig â systemau tocynnau crypto cyhoeddus, heb hawliau neu systemau cadwyn bloc preifat gyda hawliau (gan gynnwys Arian Digidol y Banc Canolog ("CBDCs"), darnau arian sefydlog (stablecoins), sicrwydd ecwiti a dyled a hawliadau credyd) a thocynnau cofrestr/cofnod yn unig.

Rydym yn dod i'r casgliad bod llawer o docynnau crypto yn debygol o fod y tu allan i gwmpas trefn yr FCARs. Fodd bynnag, ar gyfer eitemau cyfochrog eraill a allai ddefnyddio a/neu fod yn gysylltiedig â systemau tocynnau crypto cyhoeddus heb hawliau neu systemau cadwyn bloc preifat gyda hawliau (gan gynnwys CBDCs, darnau arian sefydlog, sicrwydd ecwiti a dyled a hawliadau credyd) neu docynnau cofrestr/cofnod yn unig, credwn fod yr ateb yn wahanol o bosibl. Ar gyfer o leiaf rhai o'r pethau hynny, mae'n well dadlau eu bod yn dod o fewn cwmpas trefn yr FCARs. Rydym yn argymell diwygio'r gyfraith i egluro'r sefyllfa hon, er nad ydym yn dod i gasgliad yn y pen draw ynghylch beth ddylai cwmpas cyflawn trefn yr FCARs fod, o ystyried bod y cwestiwn hwnnw o reidrwydd yn ymwneud ag ystyriaethau polisi sydd y tu allan i gwmpas ein gwaith presennol.

### Tocyneiddio sicrwydd

Rydym yn trafod tocyneiddio ecwiti a sicrwydd corfforaethol cofrestredig eraill. Rydym yn argymell bod y cyfreithiau sy'n rheoli tocyneiddio ecwiti a sicrwydd corfforaethol cofrestredig eraill gan gwmnïau yn y DU yn cael eu hadolygu. Nod yr adolygiad hwn fyddai cadarnhau a, lle bo'n briodol, ymestyn yr ystod o gyfleusterau technolegol (gan gynnwys, o bosibl, i gyfriflyfrau cyhoeddus, heb hawliau) a threfniadau gweithredol y byddai'n gyfreithlon eu rhoi ar waith i greu, trosglwyddo a defnyddio ecwiti ar ffurf tocynnau o'r fath a sicrwydd corfforaethol cofrestredig eraill. Byddai hyn yn gofyn am ragor o newid deddfwriaethol.

## Fframwaith cyfreithiol statudol pwrpasol ar gyfer trefniadau sicrwydd cyfochrog tocynnau crypto ac asedau crypto

Rydym yn dod i'r casgliad, er bod cyfraith Cymru a Lloegr yn cynnig opsiynau ar gyfer rhoi sicrwydd mewn perthynas â thocynnau crypto ac asedau crypto, nad yw'r opsiynau hynny'n ddigonol. Felly, rydym yn argymell bod y Llywodraeth, fel mater o flaenoriaeth, yn sefydlu prosiect amlddisgyblaethol i lunio a rhoi fframwaith cyfreithiol statudol pwrpasol ar waith sy'n hwyluso'n well ac yn fwy clir y broses o ymrwymo, gweithredu a gorfodi trefniadau sicrwydd cyfochrog ar gyfer tocynnau crypto (penodol) ac asedau crypto (penodol).

Er bod yr argymhelliad hwn a'r gwaith sy'n ofynnol i'w roi ar waith yn sylweddol, rydym yn dod i'r casgliad bod llawer iawn o alw am ddiwygio'r gyfraith fel hyn ymysg ymgyngoreion, cyfranogwyr marchnadoedd a chyrff y diwydiant.

# Achosion gweithredu a rhwymedïau cysylltiedig

Rydym yn ystyried achosion gweithredu a rhwymedïau cysylltiedig yng nghyd-destun pethau trydydd categori. Rydym yn dod i'r casgliad y gellir cymhwyso llawer o'r gyfraith bresennol sy'n ymwneud ag achosion gweithredu a rhwymedïau i bethau trydydd categori heb ddiwygio'r gyfraith. Yn aml, nid yw'r gyfraith yn gwahaniaethu rhwng achosion gweithredu a rhwymedïau sy'n berthnasol i bethau mewn meddiant, i bethau ar waith neu i bethau trydydd categori, ac rydym yn nodi lle mae hynny'n digwydd ar hyn o bryd. Yn yr achosion hynny, nid oes angen rheolau pwrpasol ac nid oes angen diwygio'r gyfraith. Yn hytrach, yr hyn sy'n ofynnol yw bod y llysoedd yn parhau i gydnabod manylion neu hynodrwydd pethau trydydd categori (gan gynnwys eu swyddogaethau penodol a'u nodweddion technegol) ac yn cymhwyso egwyddorion cyfreithiol presennol i bethau o'r fath fel y bo'n briodol.

## Contractau a ffactorau dirymol

Rydym yn ystyried defnyddio gwahanol achosion gweithredu sy'n codi mewn perthynas â chontractau, gan ganolbwyntio'n benodol ar nodweddion cyfreithiol rhwymedigaeth i "dalu" unedau anariannol fel tocynnau crypto. Rydym hefyd yn trafod cymhwyso ffactorau dirymol amrywiol i gontractau sy'n ymwneud â phethau trydydd categori. Rydym yn dod i'r casgliad bod y ffactorau dirymol o gamgymeriad, camliwio, gorfodaeth a dylanwad gormodol yn berthnasol yn yr un modd i gontractau sy'n cynnwys pethau trydydd categori fel ag y maent i gontractau sy'n ymwneud â phethau mewn meddiant a phethau ar waith. Rydym hefyd yn dod i'r casgliad y gall yr egwyddorion cyfreithiol sy'n ymwneud â chontractau di-rym fod yn berthnasol i bethau trydydd categori, yn yr un modd ag y maent yn berthnasol i wrthrychau eraill hawliau eiddo personol, heb ddiwygio'r gyfraith.

## Dilyn ac olrhain

Rydym yn ystyried sut gallai'r prosesau amlwg o ddilyn ac olrhain fod yn berthnasol i bethau trydydd categori ac yn trafod sut gallai natur ffeithiol pethau trydydd categori gymhlethu dadansoddiad cyfreithiol mewn perthynas â'r prosesau amlwg hynny.

## Torri ymddiriedaeth, camwrïau ecwitïol, ac ymddiriedolaethau deongliadol

Rydym yn ystyried defnyddio egwyddorion sy'n ymwneud â thorri ymddiriedaeth, camwrïau ecwitïol ac ymddiriedolaethau deongliadol. Rydym yn dod i'r casgliad, o ran torri ymddiriedaeth a dyletswydd ymddiriedol, bod egwyddorion ecwiti yn ddigon hyblyg i'w cymhwyso mewn sefyllfaoedd sy'n ymwneud â phethau trydydd categori. O ran ymddiriedolaethau deongliadol, rydym yn dod i'r casgliad bod cyfraith gwlad yn gallu esblygu mewn ffordd resymegol a chlir ac nad ydym yn argymell diwygio'r gyfraith.

## Adfer perchnogol, adfer ar gyfer ymgyfoethogi anghyfiawn a throsiant

Rydym yn ystyried tri phrif achosi gweithredu mewn cyfraith gwlad a sut maent yn berthnasol i sefyllfaoedd ffeithiol sy'n cynnwys pethau trydydd categori: adfer perchnogol; adfer ar gyfer ymgyfoethogi anghyfiawn; a throsiant. Rydym yn dod i'r casgliad y bydd hawliadau mewn adfer perchnogol ac adfer ar gyfer ymgyfoethogi anghyfiawn yn debygol o fod ar gael yng nghyd-destun pethau trydydd categori, ond ni fydd hawliad mewn trosiant ar gael. Mae hyn oherwydd mai dim ond i bethau mewn meddiant y mae trosiant yn berthnasol iddynt.

Fodd bynnag, er bod hawliadau adfer perchnogol ac adfer am ymgyfoethogi anghyfiawn ar gael yn eang, rydym yn dod i'r casgliad nad yw hawliadau o'r fath yn debygol o lwyddo pan fydd diffynnydd yn llosgi tocyn crypto hawlydd. Ystyr llosgi yw anfon tocyn crypto i "gyfeiriad llosgi" anhygyrch, a'r canlyniad yw bod y tocyn yn cael ei dynnu o gylchrediad.

O ystyried nad yw hawliad am adfer perchnogol, adfer am ymgyfoethogi anghyfiawn, neu drosiant ar ôl i ddiffynnydd losgi tocyn crypto hawlydd, rydym yn dod i'r casgliad bod yna fwlch yn y gyfraith sy'n ymwneud yn benodol â gwrthrychau sy'n dod o fewn y trydydd categori. Nid ydym o'r farn mai datblygu egwyddorion adfer perchnogol neu ymgyfoethogi anghyfiawn mewn cyfraith gwlad fyddai'r ffordd fwyaf priodol o lenwi'r bwlch hwn. Yn hytrach, rydym yn dod i'r casgliad y byddai'n well i'r llysoedd ddatblygu egwyddorion atebolrwydd camweddus penodol ac ar wahân drwy gydweddiad â, neu sy'n defnyddio rhai elfennau o'r camwedd trosiant i ddelio ag achosion o ymyrryd yn anghyfreithlon â gwrthrychau digidol. Mae'r casgliad hwn yn cydnabod bod y bwlch sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y gyfraith yn codi mewn sefyllfaoedd lle na ellir gwneud hawliad sy'n seiliedig ar adfer am ymgyfoethogi anghyfiawn neu adfer perchnogol.

## Gwaharddebau, gorfodi, a dyfarniadau ariannol

Yn olaf, rydym yn ystyried rhai agweddau trefniadol ar gyfraith rhwymedïau, yn benodol y gyfraith sy'n ymwneud â gwaharddebau, gorfodi a dyfarniadau ariannol.

| Achosion gweithredu | Ar gael yn gyffredinol mewn perthynas â phethau trydydd categori? | Yn gallu rhoi hawl ar ôl llosgi tocyn crypto? |
|---|---|---|
| Adfer perchnogol | ✓ | ✗ |
| Adfer ar gyfer ymgyfoethogi anghyfiawn | ✓ | ✗ |
| Trosiant | ✗ | ✗ |
| Atebolrwydd camweddus am ymyrryd yn anghyfiawn â phethau trydydd categori | ✓ | ✓ |

# Cipolwg ar ein hargymhellion

## Argymhellion

### Argymhelliad 1

Rydym yn argymell cadarnhau'n statudol na fydd peth yn cael ei amddifadu o statws cyfreithiol fel gwrthrych hawliau eiddo personol dim ond oherwydd nad yw'n beth ar waith nac yn beth mewn meddiant.

### Argymhelliad 2

Rydym yn argymell bod y Llywodraeth yn creu neu'n enwebu panel o arbenigwyr technegol sy'n benodol i'r diwydiant, ymarferwyr cyfreithiol, academyddion a barnwyr i roi arweiniad nad yw'n rhwymo ar y materion cymhleth sy'n esblygu sy'n ymwneud â rheoli (a materion eraill sy'n ymwneud â gwrthrychau digidol yn fwy cyffredinol). Byddai angen i'r panel hwn gynnwys y rheini sy'n arbenigo yn y marchnadoedd tocynnau crypto, ac nid dim ond y rheini sy'n arbenigo mewn marchnadoedd cyllid traddodiadol neu farchnadoedd sicrwydd canolradd.

### Argymhelliad 3

Rydym yn argymell diwygio'r FCARs yn statudol:

1. Esbonio i ba raddau ac o dan ba drefniadau dal y gall tocynnau crypto, asedau crypto (gan gynnwys CBDCs a darnau arian sefydlog gorchymyn sy'n gysylltiedig ag arian cyfred) a/neu docynnau cofnod/cofrestr yn unig fodloni'r diffiniad o arian parod, gan gynnwys o bosibl drwy ddarparu canllawiau ychwanegol ar ddehongli "arian mewn unrhyw arian cyfred", "cyfrif" a "hawliad tebyg i ad-dalu arian".

2. Cadarnhau na effeithir ar ddisgrifio ased sydd ynddo'i hun yn bodloni'r diffiniad o offeryn ariannol neu hawliad credyd, gan yr ased hwnnw sy'n cael ei gofnodi neu ei gofrestru gan docyn crypto mewn system cadwyn flociau neu system sy'n seiliedig ar DLT (lle nad yw'r ased sylfaenol yn "gysylltiedig" neu'n cael ei "styffylu" gan unrhyw fecanwaith cyfreithiol i'r tocyn crypto sy'n eu cofnodi).

3. Cadarnhau, os yw ased sy’n bodloni’r diffiniad o offeryn ariannol neu hawliad credyd ar ffurf tocyn ac wedi’i gysylltu’n effeithiol neu wedi’i styffylu i docyn crypto sy’n wrthrych penodol hawliau eiddo personol o safbwynt y person sy’n ei reoli ac a roddwyd i’r person hwnnw, bydd y tocyn cysylltiedig neu’r tocyn wedi’i styffylu ei hun yn bodloni’r diffiniad perthnasol yn yr un modd.

4. Rydym yn argymell y dylid adolygu cyfreithiau sy’n berthnasol i gwmnïau yn y DU i asesu rhinweddau diwygiadau a fyddai’n cadarnhau dilysrwydd a/neu yn ehangu defnyddio rhwydweithiau tocynnau crypto ar gyfer cyhoeddi a throsglwyddo ecwiti a sicrwydd corfforaethol cofrestredig eraill. Yn benodol, rydym yn argymell y dylai unrhyw adolygiad o’r fath ystyried i ba raddau y gallai ac y dylai cyfreithiau perthnasol gefnogi defnyddio cyfriflyfrau cyhoeddus heb hawliau ar gyfer cyhoeddi a throsglwyddo buddiannau cyfreithiol mewn ecwiti a sicrwydd corfforaethol cofrestredig eraill.

### Argymhelliad 4

Rydym yn argymell bod y Llywodraeth, fel mater o flaenoriaeth, yn sefydlu prosiect amlddisgyblaethol i lunio a rhoi fframwaith cyfreithiol statudol pwrpasol ar waith sy’n hwyluso’n well ac yn fwy clir y broses o ymrwymo, gweithredu a gorfodi trefniadau sicrwydd cyfochrog ar gyfer tocynnau crypto (penodol) ac asedau crypto (penodol).

## Casgliadau

### Casgliad 1

Rydym yn dod i’r casgliad y gall rheolaeth ffeithiol (ynghyd â bwriad) fod yn sail i fuddiant perchnogol cyfreithiol mewn gwrthrych digidol. Rydym yn dod i’r casgliad, mewn rhai amgylchiadau, y gellir gwahanu buddiant perchnogol cyfreithiol sy’n seiliedig ar reolaeth oddi wrth deitl cyfreithiol uwch (ac y gall fod yn israddol iddo neu oddi tano).

### Casgliad 2

Rydym yn dod i’r casgliad ei bod yn bosibl (gyda’r bwriad angenrheidiol) trosglwyddo tocyn crypto oddi ar y gadwyn yn gyfreithlon drwy newid rheolaeth neu ar y gadwyn drwy weithred drosglwyddo o'r fath sy’n achosi newid cyflwr.

### Casgliad 3

Rydym yn dod i’r casgliad y gall amddiffyniad arbennig ar gyfer prynwr dilys am werth heb hysbysiad sy’n gymwys i docynnau crypto gael ei gydnabod a’i ddatblygu drwy’r llysoedd drwy ddatblygu’r gyfraith gwlad yn raddol. Rydym yn dod i’r casgliad y gellir ymestyn y rhesymeg hon i bethau trydydd categori arall hefyd.

### Casgliad 4

Rydym yn dod i'r casgliad, o dan gyfraith Cymru a Lloegr, y gellir disgrifio a strwythuro trefniadau dal canolraddol ar gyfer tocynnau crypto fel ymddiriedolaethau, gan gynnwys lle mae'r hawliadau sylfaenol (1) yn cael eu dal ar sail gyfunol heb eu dyrannu er budd nifer o ddefnyddwyr, a (2) o bosibl hyd yn oed wedi'u cydgymysgu â hawliadau heb eu dyrannu a ddelir er budd y cyfryngwr sy'n dal ei hun.

Rydym yn dod i'r casgliad mai'r ffordd orau o ddeall buddiannau buddiolwyr o dan ymddiriedolaethau o'r fath yw fel hawliau cydberchnogaeth mewn tenantiaeth ar y cyd.

### Casgliad 5

Rydym yn dod i'r casgliad y gallai cydnabod buddiant perchnogol cyfreithiol sy'n seiliedig ar reolaeth fod yn sail i strwythur cyfreithiol amgen ar gyfer trefniadau dal canolraddol ar gyfer cadw yn ogystal ag ymddiriedolaethau. Gallai hyn fod ar ffurf cyfryngwyr sy'n dal yn cael eu cydnabod fel rhai sy'n caffael buddiant perchnogol sy'n seiliedig ar reolaeth mewn hawliadau tocynnau crypto a ddelir sy'n destun teitl cyfreithiol uwch a gedwir gan ddefnyddwyr.

### Casgliad 6

Rydym yn dod i'r casgliad y byddai'n adeiladol i'r llysoedd ddatblygu egwyddorion atebolrwydd camweddus penodol ac ar wahân drwy gydweddiad â, neu sy'n defnyddio rhai elfennau o'r camwedd trosiant i ddelio ag achosion o ymyrryd yn anghyfiawn â thrydydd categori.